OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 274 (Cy. 17)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Drenewydd i'r Trallwng, Powys) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

Gwnaed	*5 Ionawr 2015*
Yn dod i rym	*12 Ionawr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Drenewydd i'r Trallwng, Powys) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2015 ac a ddaw i ben pan dynnir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng y Drenewydd a'r Trallwng yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, sydd â'i led yn fwy na 2.5 metr fynd yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

9. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Ionawr 2015

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

YR ATODLEN

I'r de o Aber-miwl

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r annedd a elwir Penarth, Y Drenewydd hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B4386, sef y ffordd fynediad ddeheuol i Aber-miwl.

Garthmyl i Bont Helygi, Aberriw

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4385 yng Ngarthmyl hyd at ganolbwynt Pont Helygi, Aberriw.

Fron i Lancamlais

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth U2638 yn Fron, hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth U2634 Cross Lane, gyferbyn â'r annedd a elwir Glancamlais.